COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 9fed o IONAWR 2017 YN SWYDDFA'R CYNGOR, NEUADD PONTIETS AM 7.00.
Presennol: Alan Lewis (yn y gadair),Ian Evans,Heddwyn Jones,Margaret Rees,Tyssul Evans,Linda Williams,Geraint Rosser a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Carrie Rees,Wendy Evans,Ellis Jenkins,Richard Thomas,Meic Bowen,Geoff Hewitt ac Aled Williams.

Materion Personol

1604 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Llongyfarchwyd y Cynghorydd Ian Evans a fydd yn dathlu Pen-blwydd arbennig o fewn y dyddiau nesaf. Mynegwyd pryder ynglŷn â chyflwr iechyd y Cynghorwyr Richard Thomas, Ellis Jenkins a Meic Bowen a dymunwyd yn dda iddynt. Hefyd nodwyd marwolaeth y Cyn-gynghorwr Enid Evans, Meinciau a fu farw dros y Nadolig..

1605 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 05/12/2016 fel rhai cywir.

1606 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 1587 - Toiledau'r Meinciau - Mae'r dogfennau angenrheidiol mewn llaw a gobeithir symud ymlaen gyda'r penodiad mor gynted posibl.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1607 Neuadd yr Eglwys, Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

1608 Côr Merched Glannau'r Gwendraeth - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

1609 Carway Short Mat Bowls– Llythyr yn diolch am y rhodd.

1610 Carway Short Mat Bowls - Cyfraniad tuag at brynu peiriant arbennig – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1611 Eisteddfod Llangollen – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1612 CISS – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1613 Papur y Cwm – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1614 Swyddfa'r Post- Symud lleoliad Swyddfa Bost Pontiets- Nodwyd y llythyr.

1615 Cyngor Sir Gar - Newidiadau i Ffiniau Etholaeth Caerfyrddin - Penderfynwyd danfon ein sylwadau ymlaen at Gomisiwn Ffiniau i Gymru.

Ceisiadau Cynllunio

1616 Ceisiadau Cynllunio

a) Cais Rhif W/34923- Alun Williams - Panteg,Llangyndeyrn - Ffrâm Amaethyddol - Dim Gwrthwynebiad .

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1617 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Rhagfyr 2016.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

1618 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £388.61 (Mis Rhagfyr)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Rhagfyr)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £100.00 (Mis Rhagfyr)
ch) HMRC (Treth)- £77.60 (Mis Rhagfyr)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Rhagfyr)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £45.48 (Mis Rhagfyr)
e) Treuliau'r Syrfëwr - £35.00
f) Ffon y Syrfëwr - £30.00
ff) Swyddfa Archwilio Cymru – Archwiliad 2015/2016 - £373.00
g) Jamie King Media – Gwefan y Cyngor - £55.00
Ng) Neuadd Pontiets – Caged Bird Society - £100.00

Praesept 2017/2018

1619 Awdurdodwyd y Cadeirydd a'r Clerc i arwyddo Ffurflen y Cyngor Sir yn codi Presept y Cyngor 3% am y flwyddyn 2017-2018.

Les Clwb Rygbi Pontiets

Cynghorwr Geraint Rosser yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1620 Wedi trafodaeth lwyr penderfynwyd ein bod yn estyn Les yn enw Clwb Rygbi Pontiets am gyfnod ychwanegol o 30 mlynedd o 25/12/2027 hyd at 25/12/2057.Penderfynwyd hefyd gofyn i Gwmni Cyfreithiol JCP Caerfyrddin delio a'r mater ar ein rhan.

Geraint yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Coeden Nadolig Pontiets

1621 Awdurdodwyd y Clerc i wneud ymholiadau pellach ynglŷn â'r posibilrwydd o leoli Coeden Nadolig ar ddarn o dir y tu allan i Neuadd Pontiets.

Materion Cynghorwyr

1622 **Ian** a) Ystlys wedi torri ar y Bont dros y Rheilffordd ym Mhontnewydd
b) Gofyn beth yw sefyllfa'n cais am arwyddion 20 milltir yr awr o flaen Ysgol Carwe.

1623 **Margaret** Gofyn i'r Cyngor Sir (Ainsley Williams) am lanhau'r sbwriel ar yr hewl rhwng Crwbin, Llangyndeyrn hyd at Gwmffrwd.

1624 **Linda** Gofyn i Ainsley Williams o'r Cyngor Sir i lanhau'r gwydr o gylch y safle ail-gylchu ar y Meinciau

1625 **Heddwyn** Sbwriel (To Carafán) ger Cwm Eynon/Waunygwiel Fawr,Pedair Heol.

1626 **Alan** Bin ar ben Heol Pentrwpeg.

1627 Geraint Gwahodd yr Heddlu i'n cyfarfod nesaf i drafod problemau ym Maes Parcio Pontiets.

1628 Aled Carafán ar waelod Maesglas,Pontiets o Rif 110.

Cyfarfod nesaf:- 6ed Chwefror 2017 yn Swyddfa'r Cyngor, Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……